Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WGC 014/2017	Dyddiad cyhoeddi:	19 / 07 / 2017

Statws:	Er gwybodaeth
Teitl:	Ail-orchuddio adeiladau uchel

Cyhoeddwyd gan:

Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys	Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau Cynulliad

Crynodeb:

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi gwybodaeth am faterion a fydd yn codi pan mae perchnogion adeiladau yn cynnal gwaith ail-orchuddio ar adeiladau uchel ac yn darparu gwybodaeth ar y canllawiau sydd ar gael yn dilyn tân Tŵr Grenfell.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Llinell Uniongyrchol: 03000 628144
E-bost: enquiries.brconstruction@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG32124

AIL-ORCHUDDIO ADEILADAU UCHEL

Diben y Cylchlythyr hwn yw:

- tynnu sylw at y materion tebygol a fydd yn codi pan mae perchnogion adeiladau'n cynnal gwaith ail-orchuddio ar adeiladau uchel; a
- sicrhau bod cyrff rheoli adeiladau'n ymwybodol o'r canllawiau, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i berchnogion adeiladau uchel yn dilyn tân Tŵr Grenfell

Nid yw'r Cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar y gofynion technegol yn y Rheoliadau Adeiladu gan fod y rhain yn faterion a gwmpesir gan Ddogfennau Cymeradwy.

Cwmpas

Mae'r canllawiau yn y Cylchlythyr hwn yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru, nid yw'n berthnasol i *adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru*[1].

Cyflwyniad

Os yw perchnogion adeilad o'r farn bod angen ail-orchuddio'r adeilad, er enghraifft yn dilyn canlyniadau'r prawf sgrinio, mae hyn yn debygol iawn o fod yn waith adeiladu fel y diffinnir yn Rheoliadau 3 a 23 o Reoliadau Adeiladu 2010 ac felly'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Adeiladu, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â: Adeilad (Atodlen 1, Rhan A); Diogelwch Tân (Rhan B); Paratoi safle ac ymwrthedd i halogion a lleithder (Rhan C); ac Arbed tanwydd a phŵer (Rhan L).

Rhaid i'r deunyddiau a chrefftwaith hefyd gydymffurfio â Rheoliad 7.

Mae'r nodyn hwn yn nodi materion cyffredin i'w hystyried gan gyrff rheoli adeiladau wrth adolygu ceisiadau rheoliadau adeiladu ar gyfer gwaith gorchuddio.

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi darparu cyngor, sydd ar gael yn y dolenni isod, ar gyfer perchnogion adeiladau ar faterion diogelwch adeiladau:

https://www.gov.uk/government/publications/safety-checks-following-the-grenfell-tower-fire-22-june-2017

https://www.gov.uk/government/publications/explanatory-note-on-safety-checks-and-testing

Disodli paneli sampl neu unigol

Wrth asesu diogelwch y system cladin, mae'n bosib y bydd angen cael gwared â phaneli unigol naill ai i ddatgelu gwneuthuriad yr adeiladu neu at ddibenion profi. Dylid cymryd gofal wrth wneud hyn, i beidio creu amodau lle gall waethygu uniondeb

[1] Diffinir adeiladau ynni a eithrir yn yr atodlen i Weinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) Gorchymyn 2009 (O.S. 2009/3019)

y system cladin. Gallai hyn gynnwys amlygu’r inswleiddio neu ddeunyddiau eraill i’r glaw, a gall effeithio ar uniondeb strwythurol a pha mor ddiddos yw’r adeilad, neu adael deunyddiau’n agored a allai leihau perfformiad tân.

Lle bo’r paneli sampl wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol, dylid eu hailosod ar unwaith gyda deunydd addas sy'n sicrhau cydymffurfiaeth barhaus gyda phob Rhan berthnasol o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu gan gynnwys canllaw Dogfennau Cymeradwy B.

Diogelwch strwythurol

Mae’n bosib y bydd yr ail-orchudd yn drymach na'r system bresennol a bod y paneli cladin, neu ddeunyddiau inswleiddio â llai o wydnwch i’r gosodiadau sy’n tynnu trwyddo i’w gymharu â’r paneli gwreiddiol. Er enghraifft, gall inswleiddio newydd fod yn drymach, yn enwedig os yw’n amsugno dŵr (e.e. rhag glaw yn ystod gosod neu law yn treiddio trwy'r cladin allanol). Yn ogystal, gall cael gwared ar y paneli gwreiddiol ddifrodi’r gosodiadau, y system osod neu swbstrad yr adeilad.

Os yw gosodiadau neu system osod yn cael eu hailddefnyddio, dylid gwirio’r dyluniad gwreiddiol ac addasrwydd ar gyfer y gosodiad newydd. Dylai hyn hefyd gynnwys asesiad o wydnwch i lwythi gwynt. Ni ddylid tybio bod y fanyleb wreiddiol ar gyfer y gosodiadau’n ddigonol gan fod risg na chynlluniwyd neu na osodwyd y system wreiddiol yn gywir bob amser. Dylai’r gosodiadau ystyried cyflwr swbstrad yr adeilad a'i berfformiad mewn achos o dân.

Rhoddir canllawiau ar gladin wal yn Adran 3 o Ddogfennau Cymeradwy A - Strwythur. Mae hyn yn cyfeirio at arweiniad gan y diwydiant a fydd o bosib o ddefnydd i berchnogion adeiladau a chyrff rheoli adeiladu.

Diogelwch tân

Bydd y gofynion o Ran B yn gymwys mewn perthynas ag ail-orchuddio ac mae'r canllawiau ym mharagraffau 13.5 i 13.9 o Ddogfennau Cymeradwy B yn berthnasol. Yn benodol;

- Dylai arwynebau allanol gyflawni yn unol â’r perfformiad a nodir yn Niagram 40,
- Dylai pob elfen o'r system cladin gan gynnwys inswleiddio, deunyddiau llenwad ac ati fod o ddeunydd hylosg cyfyngedig (fel y'i diffinnir yn Nhabl A7 – e.e. dosbarth A2 i BS EN 13501-1).
- Dylid darparu rhwystrau ceudod i gau ymylon tyllau, o amgylch agoriadau, ac yn unol â phob llawr a wal mewn pob adran.

neu fel arall:

- Bydd systemau cladin sy'n bodloni'r meini prawf perfformiad yn BR 135 gan ddefnyddio data prawf maint llawn o BS 8414-1 neu -2 fel y bo'n briodol, yn dderbyniol.

Lle nad oes data prawf BS8414 perthnasol ar gael a’r cynnig ar gyfer gorchuddio neu ail-orchuddio adeilad yn cynnwys asesiad o berfformiad ar gyfer system (neu le y mabwysiadwyd dull amgen), dylai hyn gael ei wirio’n drylwyr. Mae canllawiau yn y cyd-destun yma ar gael yn "Canllaw i Ymgymryd ag Asesiadau yn Lle Prawf Tân" a gyhoeddwyd gan y Passive Fire Protection Federation.
http://pfpf.org/pdf/publications/guide_to_uailoft.pdf

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn adroddiad BRE BR135 ac yn Nodyn Cyfarwyddyd y Gynghrair Rheoli Adeiladu (BCA) 18.

Lleithder

Dylai’r cynlluniau a’r gosodiad ar gyfer strwythur yr adeilad, inswleiddio a chladin leihau’r risg o leithder. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw newid i’r system cladin yn diogelu’r strwythur a’r seiliau rhag ymdreiddiad glaw, a dylid talu sylw arbennig i’r copin, sêl blwm a manylion draenio i sicrhau nad yw’r deunydd inswleiddio mewn perygl o droi'n wlyb ac nad yw deunyddiau strwythurol yn wynebu risg o bydredd neu gyrydiad.

Mae angen ystyried hefyd y risg o gyddwysiad gwagleol (cyddwysiad o fewn cladin/wal y strwythur) a all arwain at newid mewn perfformiad y ffabrig ble cyfnewidir deunyddiau amgen (yn enwedig inswleiddio). Rhoddir canllawiau yn Nogfen Gymeradwy C, Adroddiad BRE 262 *Inswleiddio thermol: osgoi risgiau a Chod ymarfer BS 5250 ar gyfer rheoli anwedd mewn adeiladau* (*Thermal insulation: avoiding risks* and BS 5250 *Code of practice for the control of condensation in buildings).*

Gall cladin ac inswleiddio wneud adeilad yn fwy aerglos ac felly lleihau'r awyru tu mewn i'r adeilad. Gall hyn arwain o bosibl at anwedd, tyfiant llwydni ac afiechyd. Efallai y bydd angen system awyru ychwanegol a rhoddir canllawiau ar hyn yn Nogfen Gymeradwy F.

Cadwraeth gwres a phŵer

Lle mae wal allanol, to neu (llawr daear) yn cael ei adnewyddu, mae Rheoliad 23 o Reoliadau Adeiladu 2010 yn mynnu ei fod yn bodloni'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol lle mae’n dechnolegol, swyddogaethol ac yn economaidd ddichonadwy i wneud hynny. Mae ADL1B yn darparu arweiniad ac enghreifftiau ar yr hyn a allai fod yn dechnegol, swyddogaethol ac yn economaidd ddichonadwy.

Proses rheoli adeiladu

Atgoffir cyrff rheoli adeiladu, gan ddibynnu ar natur a graddfa’r gwaith cynnal, y dylid ymgynghori â’r Awdurdodau Tân ac Achub priodol.

Gofynion cynllunio

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer adnewyddu neu addasu cladin. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gallu rhoi cyngor os oes angen caniatâd cynllunio sy'n gysylltiedig ag unrhyw waith a dylid cysylltu â hwy cyn gynted â phosib.

Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y cylchlythyr hwn at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628144.

E-bost: enquiries.brconstruction@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir

Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu